**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth 19 Ebrill 2022 drwy Zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Berwyn Parry Jones, Martin Jones, Beca Brown, Elliw Griffith (eitem 975 ymlaen).

**Ymddiheuriadau:** Neb

**Clerc:** Meirion Jones

**964. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau.

**965. Derbyn ymddiheuriadau.**

Dim ymddiheuriadau i'w derbyn

**966. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**967. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Mawrth 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y cadeirydd

**968. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Eitem 959 – adroddodd y Cynghorydd Avril Jones fod 4 car wedi gadael wrth waelod Allt Goch. Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Jones y byddai yn cysylltu a Cyngor Gwynedd.

**969. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac cwmni seiri maen yn y fynwent. Adroddwyd fod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol dros ben ble roedd wedi bod yn bosib egluro y gwaith mae'r cyngor wedi ei wneud ac ei gynlluniau am y dyfodol. Braf oedd clywed fod y saer maen yn cytuno gyda'r gwaith sydd yn cael ei wneud.

Nodwyd ymhellach fod y pwyllgor wedi cyfarfod fel gweithgor yn y fynwent ar 25ain o Ebrill 2022 i bwrpas asesu y gwaith sydd wedi ei wneud ac i weld faint o gofebion sydd angen sylw.

Ymysg yr eitemau a drafodwyd am y fynwent nodwyd fod y canlynol angen sylw.

a) Nodwyd fod y gwaith o osod placiau yn dynodi pa adain e.e. adain A, B, C ayyb wedi ei wneud ac fod y gwaith o safon uchel.

b) Pwrcasu hysbysfwrdd ychwanegol i'r fynwent
c) Y cadeirydd i gysylltu a'r Eglwys yng Nghymru am y wal sydd yn bochio ar y ffordd i'r fynwent
d) Y Clerc y gysylltu a Cyngor Gwynedd i'w hysbysu o gyflwr y wal – petai yn disgyn, yna eu cyfrifoldeb hwy fyddai clirio'r ffordd. Nodwyd fod y ffordd ddim yn unig yn arwain at y fynwent ond at dai cyfagos
e) Nodwyd fod cwyn wedi dderbyn am gyflwr cofeb ar ôl i'r gwair gael ei dorri. Y Clerc i ymateb i'r gwyn oddi tan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
f) Bydd blaenoriaethau yn mynd i fod yn eitemau ar agenda er cadw cofnod o beth sydd wedi ei gyflawni neu ddim.
g) Cynnal asesiad risg eleni ar y fynwent
h) Creu poster i bobl peidio gadael poteli plastig yn y fynwent ond i fynd a hwy adref i'w ailgylchu os yn bosib

Cyfeiriodd y Cynghorydd Meirwen Lloyd ei bod wedi ymweld a mynwent Llanrwst (sydd dan reolaeth Cyngor Sir Conwy) yn ddiweddar ac fod arwydd yno yn rhybuddio bydd y cyngor yn casglu pob torch Nadolig cyn Chwefror.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**970. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

## Y Cyngor Sir

Fe ddechreuodd y cyfnod cyn etholiad ar 18fed Mawrth, ac felly doedd dim cyfarfodydd arferol. Yr unig un dwi wedi gael oedd cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Yn y cyfarfod hwnnw fe gafodd cais cynllunio Plas Tirion i godi estyniad at yr uned dofednod presennol ei ganiatáu.

## Yn Lleol

Mynd i gyfarfod hefo trigolion sydd yn poeni fod newidiadau sydd wedi wneud yn parc carafannau Bryn Teg yn effeithio ar bioamrywiaeth yr ardal

Dal i ddisgwyl am adroddiad cyflymder ceir yn ardal Ceunant ar ôl yr arolwg diweddar.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**971. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Mis tawel yn y cyngor gan ei bod yn gyfnod etholiadol wrth gwrs, ond fues i'n ran o gyfarfod Grwp Democratiaeth yr Electoral Reform Society fel y cynghorydd sir oedd yno yn cynrychioli Plaid Cymru – trafod sut i gael mwy o bobol ifanc a phobol sydd newydd symud yma o wledydd eraill i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol ac yn yr etholiadau lleol roedden ni, a rhannu syniadau ac arfer dda ymhlith ein gilydd. Cyfarfod traws-bleidiol oedd hwn.

Fues i ar banel Argyfwng Costau Byw Cynhadledd y Blaid fel Cynghorydd Sir Llanrug er mwyn sôn am gynllun bwyd y Cyngor Cymuned ac am y cynnig rois i gerbron y cyngor llawn i bwyso ar Lywodraeth Cymru i ariannu 70% o dal aelodaeth cynlluniau fel rhai Fareshare. Ro'n i yna efo cynrychiolydd o'r Dref Werdd sydd yn derbyn bwyd ar yr un pryd â ni, a hefyd Sefydliad Bevan, Shelter Cymru, a'r Child Poverty Action Group.

<u>Ward</u>

O ganlyniad i drafodaethau gyda thrigolion lleol a gyda'r cyngor, mae bod dau safle bws wedi eu peintio ar dop Ffordd yr Orsaf, un yn ail-beintiad a'r llall yn baentiad o'r newydd. Codwyd pryderon trigolion yn rhan uchaf y ffordd bod pobol yn parcio ar hyd y safle bws ac felly yn ei gwneud hi'n anodd i drigolion ddod allan drwy giatiau eu cartrefi a hefyd yn ei gwneud hi'n beryg i bobol sydd yn aros bws. Roedd hyn yn arbennig o wir i rieni gyda phlant bach a babis mewn bygis gan bod rhaid dod allan rhwng y ceir i drio dal y bws. Doedd dim lle i'r bysiau dynnu drosodd chwaith, a oedd yn achosi problemau traffig. Y gobaith yw y bydd safle bws wedi ei nodi yn glir yn help at y sefyllfa.

Tyllau yn y lôn – Mae'r un wrth Co-op wedi ei lenwi fel un argyfwng, a rydw i'n aros am ateb i fy ngohebiaeth am ail-wynebu Nant y Glyn a Ffordd yr Orsaf.

Cysgodfannau bws – Mae trigolion wedi holi a fydd cysgodfannau bws yn cael eu codi ar Ffordd Llanberis a nodwyd ei bod hi'n bosib mai mater i'r Cyngor Cymuned yw hynny ac nid i'r Cyngor Sir.

**972. I ystyried cais am gymorth ariannol gan Theatr Bara Caws**

**Penderfynwyd:** Cyfrannu £100 tuag at Theatr Bara Caws

**973. Fod y cyngor yn cymeradwyo ymgyrch Cylch yr iaith ac yn y ysgrifennu at Jeremy Miles AS yn unol a'i e-bost a dderbyniwyd 22 0 Fawrth 2022 (sydd wedi gylchredeg). (Cyng Hefin Jones)**

Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi ysgrifennu at Jeremy Miles AS yn unol a llythyr Cylch yr Iaith.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth

**974.** **I ystyried pa gamau i'w cymryd yn dilyn erthygl yn Eco'r Wyddfa 'Ar ben Arall y Lein) ac i'w ystyried ar gyfer cyfarfod o'r cyngor newydd ym mis Mai.**

**Penderfynwyd:** Ceisio mwy o wybodaeth ar gyfer y cyfarfod nesaf

**975.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.** **https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0312/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Cais deiliaid ty ar gyfer codi estyniad unllawr at gefn yr eiddo.
**Ymgeisydd:** Mr Michael Lynes
**Cyfeiriad:** Bungalow, Bryn Llan, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PY
**Cyfeirnod Grid:** 252942.38, 363246.05
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad ond pryder am faterion parcio

b) **Rhif y Cais:** C22/0299/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Cais i drosi atig unedau 19 i 22 Fflatiau Seiont gan osod pedwar ffenestr gromen yn y to er mwyn creu ystafelloedd gwely ychwanegol
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Steve Burgess
**Asiant:** Mr Rhys Carden
**Cyfeiriad:** 19 - 22 Seiont Apartments, Cefn Elan, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AE
**Cyfeirnod Grid:** 253560.23, 363573.58
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C22/0298/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Mae'r gwaith arfaethedig yn cynnwys ychwanegu arae solar ar ddrychiad de-ddwyrain y to Atodiad ac ar y clawdd daear sy'n wynebu'r De-ddwyrain sy'n rhedeg ar hyd y dreif.
**Ymgeisydd:** Francois Jack Otter
**Cyfeiriad:** Tan Rhiw, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DH

**Cyfeirnod Grid:** 254996.6, 362597.38
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif y Cais:** C22/0282/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad deulawr yng nghefn ty
**Ymgeisydd:** Ms Hayley Griffith
**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Cyfeiriad:** Bryn Crwn Cottage, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DL
**Cyfeirnod Grid:** 255181.63, 362558.12
**Ward:** Cwm y Glo
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif y Cais:** C22/0225/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Porth at flaen ty annedd
**Ymgeisydd:** Bethan Bee
**Asiant:** Mrs Bethan Bee
**Cyfeiriad:** 2, Bryn Gwyn, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RH
**Cyfeirnod Grid:** 253878.83, 362802.77
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

f) **Rhif y Cais:** C22/0159/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Adeiladu modurdy domestig
**Ymgeisydd:** J Williams
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Cyfeiriad:** Tŷ Isaf, Bryniau Fawnog Ffordd Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PU
**Cyfeirnod Grid:** 253484.44, 363165.58
**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20:10

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 17 Mai 2022